Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

# Adran 5:
## Canllaw i blant 3 flwydd oed i 3 flwydd 11 mis oed



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48480 ISBN digidol 978-1-83504-692-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

## Adran 5: Canllaw i blant 3 blwydd oed i 3 blwydd 11 mis oed

Tudalennau Trosolwg


Canolbwyntio a Gwrando ........ 88

Chwarae a Rhyngweithio ........ 89

Deall Iaith Lafar ........ 90

Defnyddio Iaith Lafar ........ 91

Lleferydd ........ 92


Dilyniannau Datblygiadol:


Canolbwyntio a Gwrando ........ 93

Chwarae a Rhyngweithio ........ 94

Deall Iaith Lafar ........ 95

Defnyddio Iaith Lafar ........ 96

Lleferydd ........ 97


Posteri Strategaeth a Gweithgareddau a Awgrymir:


Canolbwyntio a Gwrando ........ 100

Chwarae a Rhyngweithio ........ 102

Deall Iaith Lafar ........ 104

Defnyddio Iaith Lafar ........ 106

Lleferydd ........ 108


Trwy gydol y canllaw hyn, cyfeiriwyd at ddatblygiad nodweddiadol LlICh.
Mae'n bwysig cefnogi'r plentyn yn ei gam datblygu yn hytrach na'i oedran.

## Canolbwyntio a Gwrando

3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed




**Sgiliau canolbwyntio a gwrando yw sylfaen lleferydd, iaith a chyfathrebu.** Mae ar blant angen datblygu'r sgiliau hanfodol hyn er mwyn gallu deall y byd o'u cwmpas, datblygu sgiliau cymdeithasol, deall arferion, dysgu geiriau newydd a datblygu synau lleferydd.

Mae'n bwysig sicrhau bod plant yn *canolbwyntio* cyn disgwyl iddynt wrando.

Ar yr oed hwn, bydd llawer o blant yn mwynhau gwrando ar storïau. Efallai y byddant yn ei chael yn anodd canolbwyntio ar fwy nag un peth ar yr un pryd e.e. gwrando ar gyfarwyddiadau pan fyddant yn canolbwyntio ar eu chwarae eu hunain.

**Rhwng 3 blwydd a 3 blwydd 11 mis oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn….**

- dechrau talu sylw a gwrando mewn grwpiau bach neu 1:1, e.e. storïau byr (fel arfer tua 10 i 15 munud)
- dangos diddordeb ac yn ymunp mewn gweithgaredd a ddewisir gan oedolyn neu blentyn arall (fel arfer tua 10 i 15 munud)
- talu sylw ar un gweithgaredd ac yna yn symud i dalu sylw ar weithgaredd arall ar ei b/phen ei hun e.e. gall symud ei sylw o’i chwarae i’r siaradwr
- gallu ymuno mewn rhigymau neu storïau eraill ac ateb cwestiynnau syml amdanynt
- gallu talu sylw ar weithgaredd o’i dewis am 15 munud

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Lleihewch bethau sy'n tynnu sylw e.e. symudiadau, sŵn, pethau gweledol sy'n tynnu sylw.
- ☑ Labelwch ardaloedd gydag arwyddion gweledol.
- ☑ Sicrhewch fod gennych arferion clir a chyson a defnyddiwch amserlenni gweledol.
- ☑ Cyfyngwch ar nifer yr adnoddau sydd allan ar unrhyw un adeg.

**Strategaethau i ddatblygu canolbwyntio a gwrando:**

- Defnyddiwch enw'r plentyn i gael eu sylw.
- Arhoswch i'r plentyn edrych arnoch cyn siarad.
- Dilynwch arweiniad y plentyn wrth chwarae.
- Siaradwch am yr hyn mae'r plentyn yn ei wneud; ailadroddwch yr hyn mae'n ei ddweud.
- Siaradwch yn bwyllog ac yn araf a rhowch amser i'r plentyn i feddwl.
- Dywedwch wrth y plentyn pan mae'n amser gwrando.
- Ewch i lawr i lefel y plentyn.
- Torrwch gyfarwyddiadau i lawr er mwyn helpu'r plentyn i ganolbwyntio ar un rhan ar y tro.

**Sicrhewch fod pob oedolyn yn MODELU ac yn CANMOL ymddygiadau sylw a gwrando da**

**CHWARAE GYDA FI...edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 101**

**Beth sydd yn y bocs?**




**Beth yw'r sŵn?**



## Chwarae a Rhyngweithio

3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed




**Mae plant yn gwneud synnwyr o'r byd trwy chwarae ac mae chwarae'n hollbwysig er mwyn cefnogi datblygiad yr ymennydd yn y blynyddoedd cynnar.** Trwy chwarae, mae plant yn datblygu ac yn dysgu defnyddio'u sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Chwarae yw'r cyd-destun hollbwysig i blant dan bum mlwydd oed er mwyn dysgu am sgiliau cymdeithasol.

**Mae rhyngweithio** yn cynnwys y gallu i chwarae mewn ffordd gydweithredol gyda chyfoedion a chymryd tro. Trwy chwarae a rhyngweithio, mae plant yn dysgu deall eu hemosiynau a'u rheoleiddio, a datblygu eu sgiliau cymdeithasol.

**Rhwng 3 blwydd a 3 blwydd 11 mis oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn....**

- cychwyn sgyrsiau gydag eraill
- deall y cysyniad o gymryd tro a rhannu gydag oedolion a chyfoedion
- mwynhau chwarae dychmygus e.e. gwisgo i fyny, chwarae rôl
- chwarae gyda teganau bach neu chwarae byd bach
- hoffi chwarae gyda phlant eraill.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Darparwch ardaloedd chwarae rôl, dan do ac yn yr awyr agored.
- ☑ Defnyddiwch adnoddau penagored e.e. darnau rhydd, defnyddiau naturiol.
- ☑ Darparwch gyfleoedd i chwarae'n gydweithredol e.e. adeiladu den.
- ☑ Sicrhewch fod dewis o adnoddau byd bach ar gael ar gyfer amrywiaeth o senarios.
- ☑ Arsylwch ar sut mae plant yn rhyngweithio â'r amgylchedd dysgu ffisegol.


**STRATEGAETHAU i ddatblygu chwarae a rhyngweithio:**

- Canolbwyntiwch ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei wneud trwy fodelu edrych a gwrando da.
- Siaradwch am yr hyn y mae'r plentyn yn ei wneud wrth chwarae.
- Anogwch y plant i gymryd tro e.e. *'Tro Bili yw e' ... nawr tro Ben yw e''"*.
- Dangoswch y cam nesaf yn y chwarae.
- Defnyddiwch fwrdd 'Nawr a Nesaf' neu amserlen weledol i gefnogi trefn y dydd a'r cyfnodau rhwng cyfleoedd chwarae.


Gadewch i'r plentyn arwain y chwarae

**CHWARAE GYDA FI... edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 103**

Chwarae rôl



Amser siarad



## Deall Iaith Lafar

3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed




**Mae deall iaith lafar (iaith dderbyngar) yn hollbwysig er mwyn i blant wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.** Mae'n cynnwys y gallu i ddeall geiriau, brawddegau a chyfathrebu dieiriau pobl/plant eraill. Mae plant yn dysgu datblygu dealltwriaeth o eiriau a brawddegau mewn camau; un gair yn gyntaf, yna nifer o eiriau unigol, yna brawddegau byr ac yna brawddegau hirach, mwy cymhleth

**Rhwng 3 blwydd a 3 blwydd 11 mis oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn….**

- deall cyfarwyddiadau â dwy ran e.e. *'Cer i nôl dy siwmper a cher i sefyll wrth y drws'*
- deall cwestiynnau *'pam'* syml am rywbeth y mae'n ei wneud/edrych arno e.e. '*Pam mae Peppa yn hapus?'*
- gallu deall y gair negyddol *'dim'* e.e. '*Pwy sydd ddim yn bwyta?'*
- deall brawddegau gyda thri gair pwysig e.e. *'Cer i nol y llwy fawr allan o'r drôr'*
- deall rhai cysyniadau a geiriau leeoliad e.e. *hir, byr, caled, meddal, cyflym, araf, o flaen, tu ôl*

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Labelwch adnoddau'n glir gyda ffotograffau/lluniau.
- ☑ Defnyddiwch gyfarwyddiadau gweledol a lluniau clir i gefnogi dealltwriaeth e.e. golchi dwylo.
- ☑ Defnyddiwch amserlenni gweledol i gefnogi arferion.
- ☑ Defnyddiwch linellau amser gweledol i ddangos dilyniant gweithgareddau.
- ☑ Defnyddiwch sefyllfaoedd a gwrthrychau go iawn i gyflwyno geirfa newydd.


**STRATEGAETHAU i ddatblygu dealltwriaeth o iaith lafar:**

- Mynnwch sylw'r plentyn cyn siarad â nhw e.e. defnyddiwch eu henw.
- Sicrhewch fod plant yn gwybod enwau gwrthrychau cyn rhoi cyfarwyddyd.
- Symleiddiwch eich iaith.
- Rhowch gyfarwyddiadau byr, clir, un ar y tro.
- Pwysleisiwch eiriau allweddol gyda'ch llais, ystumiau neu arwydd.
- Defnyddiwch gymhorthion gweledol e.e. Lluniau 'Nawr a Nesaf'.
- Defnyddiwch YN GYNTAF ac YNA i ddangos dilyniant cyfarwyddiadau, ailadrodd ac arferion.
- Dangoswch i'r plentyn beth i'w wneud os nad ydynt yn deall cyfarwyddyd.

**⌛ Rheol 10 Eiliad!** Rhowch amser i'r plentyn brosesu cyfarwyddyd neu gwestiwn.

CHWARAE GYDA FI...edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 105

**Dod o hyd i'r gwrthrych**






**Gwenyn Prysur**

# Defnyddio Iaith Lafar

## 3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed




**Defnyddio iaith lafar (iaith fynegiannol) yw'r gallu i adalw geiriau a gwybodaeth a defnyddio iaith, iaith y corff ac ystumiau yn briodol mewn sefyllfaoedd penodol e.e. i labelu/enwi gwrthrychau, disgrifio symudiadau a digwyddiadau, holi ac ateb cwestiynau ac ail-ddweud stori.** Mae geirfa dda yn hollbwysig i blant er mwyn iddynt allu mynegi eu meddyliau a'r hyn y maent ei angen a'i eisiau.

**Rhwng 3 blwydd a 3 blwydd 11 mis oed efallai y sylwch chi fod y plentyn yn….**

- cysylltu 4 i 6 gair gyda'i gilydd mewn brawddeg e.e *'fi eisiau chwarae gyda ceir'*
- defnyddio iaith am amrywiaeth o resymau e.e. gall ailadrodd holl storïau a dweud wrth bobl eraill beth sydd wedi digwydd
- defnyddio amseriad y dyfodol a'r gorffennol e.e. *'Rydw i'n mynd i siopa.' 'Rydw i wedi cerdded adref'.* Efallai y bydd yn dal i gael trafferth gyda berfau afreolaidd e.e. *'Es i'*
- dechrau cysylltu syniadau gan ddefnyddio *'a'* neu *'achos'* e.e. *'fi'n gwisgo welis achos mae'n bwrw glaw'*
- holi llawer o gwestiynnau e.e. *'Pwy?', 'Beth yw hwn?' a 'Pryd?'*

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Sylwch ar ddiddordebau'r plant - ychwanegwch adnoddau i ddatblygu chwarae ac annog iaith.
- ☑ Defnyddiwch ddefnyddiau naturiol e.e. cerrig, dail, conau i ysgogi archwilio synhwyraidd.
- ☑ Ychwanegwch adnoddau newydd at arferion bob dydd er mwyn annog plant i ddysgu geirfa newydd e.e. powlenni a phlatiau mawr, bach, lliwgar ar y bwrdd byrbrydau.


**STRATEGAETHAU i ddatblygu'r defnydd o iaith lafar:**

- ARHOSA! Rhowch amser i'r plentyn brosesu a threfnu eu meddyliau.
- Enwch wrthrychau wrth gyd-chwarae, yn lle gofyn *'Beth yw hwn?'*
- Gadewch i'r plentyn arwain y chwarae.
- Ehangwch eirfa'r plentyn trwy ychwanegu geiriau e.e. os ydynt yn dweud *'car'* gallwch chi ddweud *'ie, car mawr'.*
- Modelwch y ramadeg gywir yn hytrach na dweud wrth y plentyn os ydynt yn anghywir e.e. os ydynt yn dweud *'Fi fall'* gallwch chi ddweud *'O diar, rwyt wedi cwympo'.*

Siaradwch am yr hyn y mae'r plentyn yn edrych arno neu'n ei wneud

**CHWARAE GYDA FI...edrychwch ar rai o'r gweithgareddau a awgrymir ar dudalen 107**

Siarad am CHWARAE




Amser Stori



# Lleferydd

3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed




**Mae lleferydd (ffonoleg) yn cyfeirio at y gallu i ddweud synau lleferydd i wneud eich hun yn ddealladwy. Pan fyddwn yn gwrando ar blentyn yn siarad, gallwn feddwl am pa mor glir yw ei eiriau. Nid yw *lleferydd* yr un peth â *siarad.***

Erbyn 3 blwydd oed, fel arfer mae oedolion cyfarwydd tu allan i'r cartref yn gallu deall lleferydd plentyn ond ni fydd yn berffaith. Erbyn 4 blwydd oed, fel arfer gellir deall lleferydd plentyn y rhan fwyaf o'r amser.

Defnyddiwch y **Poster Datblygiad Synau Lleferydd Saesneg** sydd ar dudalen 98 a'r Speech acquisition - Multilingual Children's Speech (csu.edu.au) i gefnogi eich arsylwadau.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Lleihewch bethau sy'n tynnu sylw e.e. symudiadau, sŵn, pethau gweledol sy'n tynnu sylw.
- ☑ Sicrhewch fod gennych ardaloedd/weithgareddau heb bethau i dynnu sylw er mwyn i'r plant ganolbwyntio ar wrando ar synau.
- ☑ Cofiwch gynnwys caneuon a rhigymau fel rhan o'r drefn ddyddiol.
- ☑ Rhannwch lawer o straeon - anogwch blant i ymuno wrth iddynt wrando.

**STRATEGAETHAU i ddatblygu lleferydd clir:**

- Os yw plentyn yn dweud gair yn aneglur, ymatebwch i'r hyn mae'r plentyn yn ei ddweud, ac nid pa mor glir ydynt.
- Ailadroddwch gyda'r synau cywir er mwyn i'r plentyn eu ***clywed*** e.e. os yw'r plentyn yn dweud *'tath'* mae'r oedolyn yn dweud, *'ie cath'*.
- Anogwch y plentyn i ddefnyddio symudiadau i helpu cyfleu eu neges ac i leihau'r rhwystredigaeth.
- Gofynnwch i'r plentyn ddangos i chi beth mae arnynt ei eisiau.
- Ewch i lawr i lefel y plentyn fel eu bod yn gallu gweld sut yr ydych chi'n gwneud synau - peidiwch â disgwyl iddynt eich copïo.

Peidiwch â dweud wrth y plentyn eu bod wedi dweud gair yn anghywir na gofyn iddynt ei ailadrodd.

**GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR i gefnogi datblygiad lleferydd:**

- Ewch am 'dro gwrando' (gwrandewch a siaradwch am y synau amgylcheddol).
- Gwrandewch ar bob math o synau a siaradwch amdanynt - synau uchel/isel, swnllyd/tawel...
- Sylwch ar odli - adroddwch a chanwch rigymau bob dydd.
- Clapiwch sillafau geiriau cyfarwydd.
- Gosodwch fwrdd sŵn/bagiau teimlo - chwaraewch 'Beth sydd yn y bocs'.
- Storïau sy'n odli: Darllenwch ac ailddarllenwch storïau â phatrymau odli. Anogwch y plant i ddweud beth allai'r gair sy'n odli fod wrth i chi oedi, ac i feddwl am eiriau eraill sy'n odli.

**Ewch am dro gwrando**

**Clapiwch sillafau**





**Mae canolbwyntio'n dilyn dilyniant datblygiadol:**

| 0 i 11 mis | 8 i 20 mis | 22 i 36 mis |
|---|---|---|
| **Canolbwyntio'n Mynd a Dod**<br>Hawdd tynnu eu sylw a chanolbwyntio'n mynd a dod o un peth i'r nesaf. | **Canolbwyntio Anhyblyg**<br>Gallant ganolbwyntio ar un dasg o'u dewis eu hunain, ac ni allant oddef oedolyn yn torri ar eu traws | **Canolbwyntio wedi'i sianelu'n unigol**<br>Bydd yn rhoi sylw i gyfarwyddyd gan oedolyn.<br>Methu ag ymdopi gwneud un peth a gwrando ar gyfarwyddyd am rywbeth arall. |
| **30 i 50 mis** | **40 i 60 mis** | **60 mis +** |
| **Ffocysu'r canolbwyntio**<br>Dechrau rheoli ei ffocws ei hun.<br>Gall ganolbwyntio ar un peth ar y tro (y dasg neu'r cyfarwyddyd sydd ddim yn gysylltiedig).<br>Gallant newid ffocws eu canolbwyntio'n annibynnol. | **Canolbwyntio â dwy sianel**<br>Gall ymgymryd â thasg a deall cyfarwyddyd ar yr un pryd.<br>Gall cwmpas eu canolbwyntio fod yn fyr ond nawr gellir eu haddysgu mewn grŵp. | **Canolbwyntio integredig**<br>Mae'r canolbwyntio wedi'i reoli, ei gynnal a'i sefydlu'n dda ar draws sefyllfaoedd gwahanol, gyda phobl wahanol. |

- **Efallai y bydd rhai plant yn gweithredu ar lefel sy'n is na'u hoed cronolegol**
- **Ni all plant ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu os nad ydynt yn gallu canolbwyntio neu wrando**

## Mae sgiliau chwarae yn dilyn dilyniant datblygiadol:

**Chwarae archwiliadol (geni tan tua 5 mis oed):**Ysgwyd, cega, taro a throi teganau a gwrthrychau eraill drosto er mwyn ceisio darganfod beth ydynt. Tua 9 mis oed, bydd yn edrych am wrthrych sydd wedi cael ei guddio (mae'n deall sefydlogrwydd gwrthrych).
**Adnabod gwrthrychau (tua 12 mis):** Mae'n dangos dealltwriaeth o'r defnydd priodol o wrthrych heb smalio e.e. defnyddio brwsh ar eu gwallt.

**Chwarae gyda gwrthrychau (rhwng 8 ac 20 mis):** Smalio defnyddio gwrthrych arnyn nhw eu hunain e.e. defnyddio cwpan tegan i yfed.

**Chwarae cymeriadau (rhwng 16 a 26 mis):** Defnyddio cymeriadau tegan yn eu chwarae e.e. rhoi diod i'r dinosor.

**Efelychu arferion (tua 22 i 36 mis):**Mae'n efelychu arferion syml trwy chwarae e.e. rhoi bath i'r doli a'u gwisgo'n barod i'r gwely. Mae chwarae byd bach yn dod yn fwy cymhleth ac efelychir senarios a straeon. Mae'n defnyddio gwrthrychau'n ddychmygus e.e. gallai bocs fod yn gar/wely.

**Chwarae rôl (tua 3 i 4 blwydd oed):** Gwisgo i fyny'n syml i ddechrau, ac yna'n raddol yn chwarae rôl fwy dychmygus y cymeriad cyfan.

**Chwarae dychmygus cymhleth a chydweithredol (4 blwydd oed +):** Mae'n efelychu dilyniannau y mae'n eu gweld yn eu hamgylchedd, mewn llyfrau ac ar y teledu e.e. arferion y cartref.

## Mae sgiliau rhyngweithio yn adeiladu wrth chwarae ac yn cynnwys y gallu i chwarae'n gydweithredol gyda chyfoedion a chymryd tro:

| 0 i 9 mis | 9 i 18 mis | 18 mis i 3 blwydd oed |
|---|---|---|
| Mae rhyngweithiadau yn dechrau ac y gorffen gyda chyswllt llygaid babi, e.e. gemau fel pi-po. | Bydd y plentyn yn dechrau rhyngweithiadau gyda geiriau a heb eiriau e.e. pwyntio, rhoi a dangos. Gallai'r rhyngweithio orffen wrth i'r plentyn symud i ffwrdd. Rhyngweithiadau wedi eu cyfyngu at 1 neu 2 dro i bob partner. | Gall rhyngweithiadau ddechrau trwy ddefnyddio enw e.e. *'Mami'.* Mae'n dechrau ymateb i gwestiynau gyda geiriau. Mae'n ailadrodd neu'n newid eu llefaru os nad ydynt wedi cael eu deall. Efallai y bydd rhyngweithiadau wedi eu cyfyngu at sefyllfaoedd cyffyrddus, cyfarwydd. |
| **3 i 4 blwydd oed** | **4 i 7 blwydd oed** | **7 blwydd oed +** |
| Mae ganddynt ddewis o strategaethau i ddechrau sgwrsio e.e. *'Ti'n gw'bod beth?'* Nifer y troeon mewn sgwrs yn cynyddu. Gall gyfathrebu'n well gyda phobl ddieithr. Gall gymryd rhan mewn sgyrsiau sy'n chwarae rôl. Mae'n defnyddio iaith eang ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau e.e. holi cwestiynau, gwneud awgrymiadau, rhoi cyfarwyddyd i eraill. | Gall ddechrau a diweddu sgyrsiau a chymryd tro yn well. Mae'n dysgu dewis yr amseriad mwyaf addas i ymuno yn sgyrsiau pobl eraill. Mae'r plentyn yn dal i dybio bod y gwrandäwr yn rhannu ei (g)wybodaeth gefndir. Mae'n dysgu addasu arddulliau sgyrsiau ar gyfer amrywiaeth o wrandawyr e.e. teulu, ffrindiau, ac athrawon. | Mae'n dod yn fwy ymwybodol o'r gwrandäwr a'i (g)wybodaeth gefndir. Mae'n cyfleu elfennau craff gyda goslef a phwyslais. Mae'n defnyddio iaith i berswadio, cyfleu anghymeradwyaeth ac er mwyn bod yn gwrtais. Mae'n datblygu addasrwydd cymdeithasol. |

**Mae Deall Iaith Lafar (iaith dderbyngar) yn dilyn dilyniant a gydnabyddir:**

| **Geni** | **6 mis** | **12 mis** |
|---|---|---|
| Ymateb i synau (geiriol neu ddieiriau).<br>Ymateb i oslef ac emosiwn mewn lleisiau. | Mae'n deall ymadroddion cyfan pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn arferion cyfarwydd. | Mae'n deall geiriau allweddol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd (yn aml gelwir hyn yn ddealltwriaeth sefyllfaol). |
| **18 mis** | **2 flwydd oed** | **2 ½ flwydd oed** |
| Mae'n deall enwau gwrthrychau sy'n absennol pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau cyfarwydd ar unrhyw adeg. | Mae'n gallu ffurfio cysylltiad rhwng dau wrthych sy'n cael eu henwi.<br>Mae'n gallu adnabod gwrthrychau wrth ddisgrifio'r defnydd ohonynt. | Mae'n deall gweithredoedd syml a phriodoleddau sydd ddim yn ymwneud â nhw eu hunain.<br>Mae'n deall arddodiaid syml, e.e. *dan, ar, trwy* a chysyniadau maint syml, e.e. *mawr, bach,* pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau syml.<br>Mae'n dechrau deall 'amser' fel cyfeiriad at y gorffennol neu'r dyfodol agos. |
| **3 blwydd oed** | **4 blwydd oed** | **5 mlwydd oed +** |
| Mae'n ffurfio cysylltiad rhwng hyd at dri gair mewn brawddeg pan na fydd unrhyw gliwiau eraill i helpu.<br>Mae'n dechrau deall amser, e.e. *Rydyn ni <u>wedi bod</u> i'r siop;Rydyn ni'n <u>mynd</u> i'r siop.*<br>Mae'n deall cysyniadau syml siâp a lliw pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau syml. | Mae'n dilyn dilyniant stori syml.<br>Mae'n deall y rhan fwyaf o frawddegau syml.<br>Mae'n parhau i elwa ar gliwiau sefyllfaol. | Yn raddol, mae'n deall brawddegau mwy cymhleth allan o'u cyd-destun.<br>Mae eu geirfa dderbyngar yn parhau i ddatblygu. |

**Mae Defnyddio Iaith Lafar (iaith fynegiannol) yn dilyn dilyniant a gydnabyddir:**

| 9 mis | 18 mis | 2 flwydd oed |
|---|---|---|
| Parablu, ymgais gynnar i ddweud geiriau e.e. *'Dada'* | Mae'n defnyddio tua 50 i 100 o eiriau gyda geiriau y gellir eu hadnabod yn well.<br>Weithiau mae'n defnyddio ymadroddion dau-air a ddysgodd e.e. *'wedi mynd'* | Mae'n defnyddio tua 200 i 300 o eiriau.<br>Mae'n rhoi 2 a 3 gair gyda'i gilydd mewn brawddegau byr e.e. *'Fi mynd adref'.* |
| **2 ½ flwydd oed** | **3 blwydd oed** | **3 ½ blwydd oed** |
| Mae'n rhoi brawddegau 3 a 4 gair at ei gilydd gan ddefnyddio mathau gwahanol o eiriau.<br>Mae'n dechrau defnyddio 'geiriau cwestiwn' e.e. *'Fi mynd fanna?'* | Mae'n cysylltu mwy na 4 gair at ei gilydd.<br>Mae'n dechrau defnyddio *'a'* i gysylltu syniadau.<br>Mae'n dechrau defnyddio rhagenwau, *'fi', 'fe', 'hi'* a geiriau lluosog e.e. '*Fi moyn sudd a losins.'* | Mae'n cysylltu syniadau at ei gilydd gan ddefnyddio *'achos'*<br>e.e. *'Fi'n gwisgo welis achos mae'n bwrw glaw.'*<br>Mae'n holi cwestiynau mwy cymhleth gan ddefnyddio *'pam'* a *'fel'.* |
| **4 blwydd oed** | | **4 ½ blwydd oed** |
| Mae'n defnyddio iaith am amrywiaeth o resymau e.e. er mwyn ailadrodd hoff straeon, chwarae gemau dychmygus ac ailadrodd digwyddiadau.<br>Mae'n siarad i ddatrys problemau a ffurfio cyfeillgarwch.<br>Mae'n holi llawer o gwestiynau er mwyn darganfod mwy o wybodaeth. | | Mae gan blant eirfa o tua 5000 o eiriau a mwy. |

## Datblygiad Nodweddiadol Lleferydd


| 2 flwydd 10 mis oed – 3 blwydd 10 mis oed | 3 blwydd 10 mis oed – 5 blwydd 1 mis oed | 5 blwydd 2 mis oed – 7 blwydd 3 mis oed |
|---|---|---|
| Bydd 50% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd | Bydd 75% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd | Bydd 90% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd |

Hustad, Mahr, Natke and Rathouz (2021)

- **Mae gan synau lleferydd ddilyniant datblygiadol**
- **Mae synau lleferydd yn amrywio o iaith i iaith.**
- **Gallai plant sy'n dysgu mwy nag un iaith ddatblygu synau lleferydd mewn trefn wahanol.**
- **Gweler** Speech acquisition - Multilingual Children's Speech (csu.edu.au) **am fwy o wybodaeth.**


## Poster Datblygiad Synau Lleferydd Saesneg

**(Nid oes unrhyw wybodaeth am y normau ar gyfer datblygiad synau lleferydd yn y Gymraeg)**



## Posteri Strategaethau a Gweithgareddau a Awgrymir

Yn yr adran hon, fe welwch chi bosteri Strategaethau a gweithgareddau a awgrymir i'ch arwain chi wrth ichi gynllunio i ddatblygu agweddau penodol ar leferydd, iaith a chyfathrebu'r plentyn.





Rhoddir y gweithgareddau a awgrymir fel enghreifftiau; defnyddiwch eich profiadau a'ch syniadau i'w cyfoethogi. Ni fwriedir i'r gridiau fod yn rhaglen benodol, anhyblyg; ond, gellir defnyddio'r syniadau i gefnogi targedau wedi'i bersonoli, fel sy'n briodol. Gallwch ddefnyddio bocset *'Early Talkers'* hefyd i gael mwy o syniadau ond nid yw hwn ar gael yn Gymraeg (ar gael ar [speechandlanguage.org.uk).](speechandlanguage.org.uk)

**Strategaethau i ddatblygu canolbwyntio a gwrando:**

- Defnyddiwch enw'r plentyn i gael eu sylw.
- Arhoswch i'r plentyn edrych arnoch cyn siarad.
- Dilynwch arweiniad y plentyn wrth chwarae.
- Siaradwch am yr hyn y mae'r plentyn yn ei wneud; ailadroddwch yr hyn mae'n ei ddweud.
- Siaradwch yn bwyllog ac yn araf a rhowch amser i'r plentyn feddwl.
- Dywedwch wrth y plentyn pan mae'n amser gwrando.
- Ewch i lawr i lefel y plentyn.
- Torrwch gyfarwyddiadau i lawr er mwyn helpu'r plentyn i ganolbwyntio ar un rhan ar y tro.

Sicrhewch fod pob oedolyn yn MODELU canolbwyntio a gwrando da. CANMOLWCH ymddygiadau sylw a gwrando da.





Dangosir pob strategaeth ar boster.

Efallai yr hoffech rannu'r posteri hyn gyda rhieni.

**PWYSIG:**

Defnyddiwch y strategaethau a awgrymir gyda'r gweithgareddau a gynllunnir, ac yn eich rhyngweithiadau trwy gydol y dydd.

Efallai yr hoffech ddefnyddio'r gweithgareddau a awgrymir i gefnogi sgiliau yn y maes hwn.




| Gweithgaredd | Canolbwyntio a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Synau Cudd** | ***Dod o hyd i wrthrych sy'n gwneud sŵn sydd wedi'i guddio yn yr ystafell.*** Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu plant i ymarfer eu sgiliau gwrando, ac i feddwl am y synau gwahanol maent yn eu clywed o'u cwmpas.<br>**Sut i chwarae:** Bydd arnoch angen cloc larwm, radio, cloc sy'n tician ayb. Gofynnwch i'r plentyn adael yr ystafell, cau eu llygaid neu wisgo mwgwd. Cuddiwch y teclyn sy'n gwneud sŵn yn yr ystafell/ardal. Mae'n rhaid i'r plentyn ddod o hyd i'r gwrthrych sydd wedi ei guddio trwy wrando am y sŵn penodol. Gallwch addasu'r gêm hon trwy roi cliwiau am ba mor agos yw'r plentyn e.e. *'Bron â bod yno'* neu *'Pell i ffwrdd'*. Mae hyn yn eu hannog i wrando ar y siaradwr. | Dewiswch fannau cuddio mwy amlwg neu declynnau mwy swnllyd fel ei bod yn haws dod o hyd iddynt. | Defnyddiwch wrthrychau tawelach neu cuddiwch fwy nag un teclyn gwneud sŵn. |
| **Pwy ydw i?** | ***Gwrando ar y synau anifeiliaid ac enwi'r anifail.*** Mae hyn yn annog plant i wrando ar wybodaeth y maent wedi ei chlywed a chysylltu hyn at yr hyn y maent eisoes yn ei wybod.<br>**Sut i chwarae:** Casglwch luniau neu anifeiliaid tegan. Gwnewch sŵn yr anifail a gofynnwch i'r plentyn ddweud pa anifail ydyw. Os allwch chi ddod o hyd i recordiadau o synau anifeiliaid mwy anghyffredin, gwnewch hynny. | Lleihewch nifer yr anifeiliaid sydd gan y plentyn i ddewis ohonynt. | Gwnewch fwy nag un sŵn anifail – ydy'r plentyn yn cofio pa sŵn wnaethoch chi yn gyntaf. Efallai y gall blant ifanc adalw 4 sŵn mewn trefn. |
| **Stopio a Mynd** | ***Annog plant i wrando ar gyfarwyddiadau yn ystod gweithgaredd.*** Mae'r gêm hon yn golygu tynnu sylw er mwyn i'r gwrando fod yn fwy heriol, ac mae hyn yn cefnogi'r plentyn i ddatblygu eu sgiliau gwrando.<br>**Sut i chwarae:** Dewiswch offerynnau swnllyd/eitemau i'w taro. Dywedwch wrth y plentyn pan fyddwch chi'n dweud, "Ewch", y gallant chwarae eu hofferyn (gallwch chwarae eich offeryn chi hefyd). Dywedwch fod yn rhaid iddynt stopio'r sŵn wrth i chi ddweud "Stop". Chwaraewch y gêm sawl gwaith, gan alw "Ewch" a "Stop". Yna, gadewch i'r plentyn ddweud "Ewch" a "Stop". | Defnyddiwch ystum yn ogystal â gair i helpu'r plentyn i weld pryd mae'n amser dechrau a gorffen. | Trowch eich cefn fel nad yw'r plentyn yn gallu eich gweld neu siaradwch yn dawel. Ydy'r plentyn yn stopio wrth i chi ddweud "Stop" os ydych chi'n parhau i chwarae eich offeryn? |
| **Gwrando am y gair** | ***Gwrando ac ymateb i eiriau allweddol mewn stori*** Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu plant i ganolbwyntio ar eiriau allweddol yn y frawddeg gyfan trwy wrando ar y storïwr.<br>**Sut i chwarae:** Dewiswch stori y mae'r plentyn yn ei hadnabod yn dda. Dywedwch, bob tro y byddwch yn dweud gair penodol, eich bod eisiau iddynt wneud ystum/dal llun i fyny. Rhannwch y stori, gan oedi wrth ddweud y gair allweddol, fel bod y plentyn yn gallu gwneud yr ystum/dal llun i fyny. Canmolwch y plentyn - dywedwch eich bod wedi mwynhau'r sŵn/elfen weledol! | Promptiwch y plentyn trwy wneud yr ystum/ddal y llun i fyny eich hun. Ceisiwch ddefnyddio rhigwm byr, cyfarwydd yn lle stori. | Oedwch am lai o amser fel bod yn rhaid i'r plentyn ganolbwyntio'n ofalus ar y geiriau sy'n cael eu dweud. |

## Canolbwyntio a Gwrando – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed

**Sicrhewch fod pob oedolyn yn MODELU canolbwyntio a gwrando da. CANMOLWCH ymddygiadau canolbwyntio a gwrando da.**


- Siarada am yr hyn rwy'n ei wneud; ailadrodda'r hyn rwy'n ei ddweud.
- Siarada'n bwyllog ac yn araf a rho amser i fi feddwl.
- Dilyna fy arweiniad wrth chwarae.
- Dwed wrtha i pan mae'n amser siarad.
- Aros nes fy mod i'n edrych arnat cyn siarad.
- Dere i lawr i fy lefel i.
- Defnyddia fy enw i gael fy sylw.
- Torra unrhyw gyfarwyddiadau i lawr er mwyn fy helpu i ganolbwyntio ar un rhan ar y tro.



| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Synau Cudd** | ***Dod o hyd i wrthrych sy'n gwneud sŵn sydd wedi'i guddio yn yr ystafell.*** Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu plant i ymarfer eu sgiliau gwrando, ac i feddwl am y synau gwahanol maent yn eu clywed o'u cwmpas.<br>**Sut i chwarae:** Bydd arnoch angen cloc larwm, radio, cloc sy'n tician ayb. Gofynnwch i'r plentyn cau eu llygaid neu wisgo mwgwd. Cuddiwch y teclyn sy'n gwneud sŵn yn yr ystafell/ardal. Mae'n rhaid i'r plentyn ddod o hyd i'r gwrthrych sydd wedi ei guddio trwy wrando am y sŵn penodol. Gallwch addasu'r gêm hon trwy roi cliwiau am ba mor agos yw'r plentyn e.e. *'Bron â bod yno'* neu *'Pell i ffwrdd'*. Mae hyn yn eu hannog i wrando ar y siaradwr. | Dewiswch fannau cuddio mwy amlwg neu declynnau mwy swnllyd fel ei bod yn haws dod o hyd iddynt. | Defnyddiwch wrthrychau tawelach neu cuddiwch fwy nag un teclyn gwneud sŵn. |
| **Pwy ydw i?** | ***Gwrando ar y synau anifeiliaid ac enwi'r anifail.*** Mae hyn yn annog plant i wrando ar wybodaeth y maent wedi ei chlywed a chysylltu hyn at yr hyn y maent eisoes yn ei wybod.<br>**Sut i chwarae:** Casglwch luniau neu anifeiliaid tegan. Gwnewch sŵn yr anifail a gofynnwch i'r plentyn ddweud pa anifail ydyw. Os allwch chi ddod o hyd i recordiadau o synau anifeiliaid mwy anghyffredin, gwnewch hynny. | Lleihewch nifer yr anifeiliaid sydd gan y plentyn i ddewis ohonynt. | Gwnewch fwy nag un sŵn anifail – ydy'r plentyn yn cofio pa sŵn wnaethoch chi yn gyntaf. Efallai y gall blant ifanc adalw 4 sŵn mewn trefn. |
| **Stopio a Mynd** | ***Annog plant i wrando ar gyfarwyddiadau yn ystod gweithgaredd.*** Mae'r gêm hon yn golygu tynnu sylw er mwyn i'r gwrando fod yn fwy heriol, ac mae hyn yn cefnogi'r plentyn i ddatblygu eu sgiliau gwrando.<br>**Sut i chwarae:** Dewiswch offerynnau swnllyd/eitemau i'w taro. Dywedwch wrth y plentyn pan fyddwch chi'n dweud, "Ewch", y gallant chwarae eu hofferyn (gallwch chwarae eich offeryn chi hefyd). Dywedwch fod yn rhaid iddynt stopio'r sŵn wrth i chi ddweud "Stop". Chwaraewch y gêm sawl gwaith, gan alw "Ewch" a "Stop". Yna, gadewch i'r plentyn ddweud "Ewch" a "Stop". | Defnyddiwch ystum yn ogystal â gair i helpu'r plentyn i weld pryd mae'n amser dechrau a gorffen. | Trowch eich cefn fel nad yw'r plentyn yn gallu eich gweld neu siaradwch yn dawel. Ydy'r plentyn yn stopio wrth i chi ddweud "Stop" os ydych chi'n parhau i chwarae eich offeryn? |
| **Gwrando am y gair** | ***Gwrando ac ymateb i eiriau allweddol mewn stori*** Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu plant i ganolbwyntio ar eiriau allweddol yn y frawddeg gyfan trwy wrando ar y storïwr.<br>**Sut i chwarae:** Dewiswch stori y mae'r plentyn yn ei hadnabod yn dda. Dywedwch, bob tro y byddwch yn dweud gair penodol, eich bod eisiau iddynt wneud ystum/dal llun i fyny. Rhannwch y stori, gan oedi wrth ddweud y gair allweddol, fel bod y plentyn yn gallu gwneud yr ystum/dal llun i fyny. Canmolwch y plentyn - dywedwch eich bod wedi mwynhau'r sŵn/elfen weledol! | Promptiwch y plentyn trwy wneud yr ystum/ddal y llun i fyny eich hun. Ceisiwch ddefnyddio rhigwm byr, cyfarwydd yn lle stori. | Oedwch am lai o amser fel bod yn rhaid i'r plentyn ganolbwyntio'n ofalus ar y geiriau sy'n cael eu dweud. |

## Chwarae a Rhyngweithio – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed

**Efallai y bydd angen i oedolion fodelu'r cyfleoedd chwarae ac annog rhyngweithio i ddechrau.**



| Gweithgaredd | Chwarae a Rhyngweithio - Gweithgareddau a Awgrymir (3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Amser siarad** | ***Annog sgyrsiau digymell a arweinir gan y plentyn.*** Dysgu sut i gymryd tro wrth sgwrsio, cyfnewid testunau a rhannu profiadau.<br>**Beth i'w wneud:** Anogwch y plentyn i arwain sgwrs am destun o'u dewis. Ceisiwch beidio â gofyn llawer o gwestiynau - rhowch amser i'r plentyn i feddwl am yr hyn y maent am ei ddweud. | Wrth i chi chwarae, siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud i annog y plentyn i ymuno yn eich sgwrs. | Anogwch y plentyn i gael sgyrsiau gydag oedolion eraill. |
| **Amser Cylch** | ***Annog sgiliau cymryd tro cynnar.*** Mae'r gweithgaredd hwn yn annog plant i aros am Tedi ac i gymryd eu tro.<br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch mewn grŵp bach a phasio Tedi o amgylch y cylch. Pan fyddan nhw'n dal Tedi, mae'r plentyn yn rhannu rhywbeth gyda'r grŵp e.e. hoff anifail, hoff liw, rhywbeth y maent wedi'i wneud dros y penwythnos ayb. Canmolwch aros da, bob tro. | Lleihewch faint y grŵp. | Anogwch y plentyn i ddewis pwy hoffen nhw i gael Tedi nesaf. |
| **Chwarae rôl** | ***Ardaloedd chwarae rôl a chyfleoedd gwisgo i fyny.*** Cefnogi'r plant i ddatblygu eu profiadau chwarae dychmygus - dysgu rhannu a chymryd tro wrth chwarae rôl.<br>**Beth i'w wneud:** Efallai y bydd angen i chi fodelu'r chwarae mewn unrhyw ardal chwarae rôl newydd os yw profiadau'r plentyn yn gyfyngedig. | Trafodwch gyda rhieni i weld pa adnoddau ac arferion cyfarwydd sy'n cael eu defnyddio yn y cartref. | Rhowch focsys gwag i'r plentyn a gadewch iddynt greu eu chwarae rôl eu hunain. |
| **Gêmau parasiwt** | ***Annog y plentyn i chwarae gydag eraill.*** Datblygu'r arfer o gymryd tro, gwrando da (aros am eu henw) a rhannu adnodd gyda'ch gilydd.<br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch y plant mewn cylch gyda pharasiwt mawr a chwaraewch gêmau byr, syml. Galwch enw'r plentyn er mwyn cymryd tro i ymuno ac i ddilyn cyfarwyddiadau. | Cyfyngwch ar y niferoedd yn y grŵp fel nad yw'r plentyn yn gorfod aros yn rhy hir cyn cael tro. | Defnyddiwch rai o'r plant fel modelau ar gyfer y rheiny sy'n ei chael yn anodd aros. |

# Deall Iaith Lafar – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed

**Defnyddiwch y Rheol 10 Eiliad! Rhowch amser i'r plentyn brosesu cyfarwyddyd neu gwestiwn.**

Defnyddia YN GYNTAF ac YNA er mwyn fy helpu i ddeall cyfarwyddiadau ac arferion ac ailadrodd digwyddiadau.

Gwna'n siŵr fy mod i'n gwybod enwau gwrthrychau cyn rhoi cyfarwyddyd i fi.

Rho gyfarwyddiadau clir, byr i fi, un ar y tro.

Defnyddia dy lais, ystumiau neu arwydd i bwysleisio geiriau allweddol.



Defnyddia iaith syml wrth chwarae gyda fi.

Mae lluniau 'nawr a nesaf' yn gallu fy helpu i ddeall.

Mynna fy sylw cyn i ti siarad â fi.

DANGOS i fi beth i'w wneud os nad ydw i'n deall.

| Gweithgaredd | Deall Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Cwrs antur** | ***Dilyn cyfarwyddiadau â dwy ran.*** Mae plant yn dilyn cyfarwyddiadau drwy'r amser, gartref ac yn yr ysgol.<br><br>**Beth i'w wneud:** Gosodwch gwrs antur diogel allan gan ddefnyddio gwrthrychau gwahanol i gropian o danynt, neidio drostynt ayb. Rhowch gyfarwyddyd i'r plentyn â dwy ran e.e. *'Neidia dros y bocs ac yna rho'r bag ffa yn y bwced'.*<br><br>Gallech hefyd gefnogi'r plant i ddilyn cyfarwyddiadau â dwy ran yn ystod amser cylch e.e. *'Clapiwch eich dwylo a chyffwrdd â'ch clustiau'. 'Sefwch i fyny a stampio'ch traed'.* | Rhowch gyfarwyddyd ag un rhan. Galwch enw'r plentyn, aros nes eu bod yn edrych, yna rhoi cyfarwyddyd. Sicrhewch eu bod yn gyfarwydd â'r eirfa a ddefnyddir e.e. rhannau'r corff. | Rhowch gyfarwyddiadau â thair rhan e.e. *'Clapiwch eich dwylo, cyffwrdd â'ch clustiau a stampio'ch traed.'* |
| **Amser Stori** | ***Gwrando ar stori.*** Datblygu eu dealltwriaeth o gwestiynau ***pam*** syml.<br><br>**Beth i'w wneud:** Edrychwch trwy lyfr lluniau gyda'ch gilydd a holwch gwestiynau ***pam*** syml. Dechreuwch trwy adrodd yr hyn y gallwch ei weld i fodelu a sgaffaldio'r iaith *'pam/oherwydd'* e.e. *'Edrych, mae'r ferch yn drist oherwydd mae wedi disgyn oddi ar y siglen.'* Yna holwch gwestiynau e.e. *'Pam mae'r ferch yn crïo?'* | Modelwch yr ymateb cywir. | Parhewch i ofyn cwestiynau ***pam*** mewn cyd-destunau eraill (i gefnogi cyffredinoli). |
| **Dod o hyd i'r gwrthrych** | ***Dod o hyd i'r gwrthrych cywir.*** Datblygu dealltwriaeth o'r gair negyddol ***ddim*** mewn brawddeg.<br><br>**Beth i'w wneud:** Bydd arnoch angen detholiad o wrthrychau mewn sefyllfaoedd chwarae. Dewiswch dri sydd yr un peth neu sydd â nodweddion yr un peth, ac un sy'n wahanol e.e. tri char mawr ac un car bach. Wrth i'r plentyn chwarae, gofynnwch 'Chwilia am y car sydd ***<u>ddim</u>*** yn fawr'. Gallwch ddefnyddio hyn bob dydd e.e. amser byrbrydau *'Pwy sydd **<u>ddim</u>** yn bwyta banana?'.* | Modelwch yr ymateb cywir a modelwch y defnydd o ***ddim*** mewn sefyllfaoedd bob dydd. | Anogwch y plentyn i ddod o hyd i fwy o bethau yn y lleoliad e.e. gwrthrychau sydd ***ddim*** yn wyrdd. |
| **Gwenyn Prysur** | ***Deall geiriau disgrifio (cysyniadau).***<br><br>**Beth i'w wneud:** Y ffordd orau o esbonio cysyniadau yw eu hesbonio wrth iddynt ddigwydd. Dangoswch a siaradwch am y sefyllfa gan ddefnyddio geiriau disgrifio yn ystod chwarae'r plentyn e.e. wrth chwarae â dŵr siaradwch am ***llawn*** a ***gwag.*** Gallech hefyd annog plant i ddod o hyd i wrthrychau sy'n ***feddal*** neu'n ***galed*** neu wneud ceir i fynd yn ***gyflym*** neu'n ***araf.***<br><br>Mae'n well canolbwyntio ar un cysyniad ar y tro. | Canolbwyntiwch ar un cysyniad ar y tro a pheidiwch ag addysgu pethau cyferbyniol ar yr un pryd e.e. defnyddiwch ***llawn*** a ***ddim yn llawn*** yn lle ***llawn*** a ***gwag.*** | Cyflwynwch gysyniadau eraill. |

# Defnyddio Iaith Lafar – STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed

**Cymerwch ran mewn sgyrsiau go iawn sy'n golygu rhywbeth i'r plentyn.**


ARHOSA! Rho amser i fi drefnu fy meddyliau.

Ychwanega air at yr hyn rwy'n ei ddweud.

Gad i fi ***glywed*** y ffordd gywir o ddweud rhywbeth ond paid â dweud wrtha i fy mod i'n anghywir.

Gad i fi arwain y chwarae. Siarada am yr hyn rwy'n ei wneud neu'n ei ddweud.

Defnyddia enwau'r pethau rwy'n chwarae â nhw yn hytrach na gofyn i fi '*Beth yw hwn?*'



| Gweithgaredd | Defnyddio Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir<br>(3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Amser siarad** | ***Adeiladu brawddegau.*** Rhoi geiriau at ei gilydd i ffurfio brawddegau byr.<br><br>**Beth i'w wneud:** Gwnewch lyfr lluniau neu fideos o'r plant yn chwarae yn y lleoliad. Rhannwch y rhain gyda'r plant a siaradwch am yr hyn sy'n digwydd. Anogwch y plant i ddefnyddio brawddegau byr e.e. *'Mae Jac yn palu yn y tywod'.* | Ailadroddwch frawddegau'r plant yn ôl iddynt, gan ychwanegu gair os oes eisiau. | Anogwch y plentyn i roi mwy o fanylion. |
| **Amser stori** | ***Ailadrodd stori gyfarwydd neu ddigwyddiad diweddar.*** Dechrau defnyddio sgiliau adrodd stori (naratif) cynnar.<br><br>**Beth i'w wneud:** Anogwch y plentyn i ailddweud rhywbeth sydd wedi digwydd neu stori gyfarwydd. Gallech ddefnyddio pypedau a phropiau neu lyfrau lluniau syml i'w hannog. | Defnyddiwch gardiau lluniau o stori gyfarwydd neu ddigwyddiad. Dechreuwch gyda dau lun ac adeiladwch i fyny. | Ehangwch ar y nifer o luniau. Anogwch y plentyn i roi'r lluniau mewn trefn ac i adrodd y stori. |
| **Chwarae Siopa** | ***Cysylltu geirfa a syniadau.*** Defnyddio senarios i ehangu iaith y plentyn .<br><br>**Beth i'w wneud:** Wrth chwarae siopa ochr yn ochr â phlant, cymerwch dro i fod yn berchennog y siop ac yn gwsmer. Defnyddiwch frawddegau fel "Beth wyt ti eisiau?". Modelwch rai ymatebion sy'n cynnwys ***a*** neu ***oherwydd/achos*** e.e. "Rydw i angen blawd **ac** wyau.", "Rydw i angen balŵns ***<u>oherwydd</u>*** rwy'n cael parti!" Defnyddiwch eich llais i bwysleisio geiriau allweddol fel ***<u>ac,</u> <u>oherwydd</u>*** ayb. | Canolbwyntiwch ar ddefnyddio ***ac*** i gysylltu dau air. | Siopwch am fwy o eitemau a holi cwestiynau ***pam*** er mwyn annog y plant i ddefnyddio ***oherwydd.*** |
| **Te Parti'r Teganau** | ***Defnyddio geiriau a brawddegau bob dydd yn ystod chwarae dychmygus.*** Annog plant i holi amrywiaeth o gwestiynau.<br><br>**Beth i'w wneud:** Trefnwch de parti gyda Doli, Tedi a theganau eraill. Sicrhewch fod gennych gwpan, plât, fforc a llwy ar gyfer pob tegan a bwyd/diodydd chwarae (neu rai go iawn os yw hynny'n bosibl). Modelwch holi amrywiaeth o fathau o gwestiynau e.e. 'Pwy sydd eisiau paned o de?' 'Beth mae Tedi eisiau i fwyta?' Anogwch y plentyn i holi cwestiynau - rhowch amser i'r plentyn ddefnyddio'r iaith a fodelir. | Canolbwyntiwch ar un math o gwestiwn (dechreuwch gyda ***pwy).*** | Ehangwch y defnydd o gwestiynau i feysydd eraill yn y lleoliad. |


## Lleferydd - STRATEGAETHAU ALLWEDDOL 3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed

**Gwrandewch ac ymatebwch i'r hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud yn hytrach na pha mor glir ydyw.**

Ailadrodda fy ngeiriau gan ddefnyddio'r synau cywir er mwyn i fi eu ***clywed.***

Gofyn i fi ddefnyddio ystumiau neu ddangos i ti beth rydw i ei eisiau.

Paid â dweud wrtha i fy mod wedi dweud rhywbeth yn anghywir na gofyn i fi ei ailadrodd.



Dere lawr i fy lefel i er mwyn i fi weld sut rwyt ti'n gwneud synau. Paid â disgwyl i fi dy gopïo.

Ymateba i'r geiriau rwy'n eu dweud, ac nid i ba mor glir ydw i.

| **Lleferydd - Gweithgareddau a Awgrymir<br>(3 blwydd i 3 blwydd 11 mis oed)** |
|---|
| **Bydd gweithgareddau a awgrymir ymhob un o'r meysydd cyfathrebu eraill yn cefnogi datblygiad lleferydd.**<br>Dyma weithgareddau bob dydd sydd hefyd yn gallu helpu datblygu lleferydd plant: |
| Ewch am 'dro gwrando' (gwrandewch a siaradwch am y synau amgylcheddol). |
| Gwrandewch ar bob math o synau a siaradwch amdanynt - synau uchel ac isel, swnllyd a thawel... |
| Sylwch ar odli - adroddwch a chanwch rigymau bob dydd. |
| Clapiwch sillafau geiriau cyfarwydd. Cofiwch gael hwyl gyda geiriau hirach e.e. pi-li-pa-la. |
| Gosodwch fwrdd sŵn/bagiau teimlo - chwaraewch 'Beth sydd yn y bocs?'. |
| Storïau sy'n odli: Darllenwch, ac ailddarllenwch, storïau gyda phatrymau odli hawdd eu clywed. Anogwch y plant i ddweud beth allai'r gair sy'n odli fod wrth i chi oedi, ac i feddwl am eiriau eraill sy'n odli. |



